NEWYDDLEN TREFNIADAETH YSGOLION – ARDAL BRONYFOEL (FRON), CARMEL A GROESLON

Addysg

CYNGOR GWYNEDD

Mawrth 2014

DIWEDDARIAD

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal i wasanaethu ardal Bronyfoel (Fron), Carmel a Groeslon, mae gwahanol agweddau o'r cynllun yma wedi cychwyn:

SEFYDLU CORFF LLYWODRAETHU CYSGODOL

- Mae Corff Llywodraethu Cysgodol wedi ei sefydlu
- Bydd y Corff Llywodraethu Cysgodol yn gyfrifol am nifer o faterion wrth i'r Ysgol Ardal gael ei sefydlu. Un o'r tasgau cyntaf fydd penodi Pennaeth i'r Ysgol Ardal newydd. Rhagwelir hysbysebu swydd y Pennaeth yn ystod tymor yr Haf. Bydd gweddill tîm staff yr ysgol newydd yn cael eu penodi yn dilyn hynny
- Mae'r Corff Llywodraethu Cysgodol am gael cymorth disgyblion yr ysgolion i ddewis enw i'r Ysgol Ardal newydd. Bydd disgyblion sydd ar Gyngor Ysgol Bronyfoel, Carmel a Groeslon yn cydweithio i ddatblygu rhestr fer o enwau posib. Y disgyblion, yn y pen draw, fydd yn pleidleisio i ddewis yr enw llwyddiannus. Bydd hefyd angen cadarnhau'r wisg ysgol newydd
- Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi eu cynnal gyda holl staff perthnasol ysgol Bronyfoel, Carmel a Groeslon er mwyn esbonio'r cymorth sydd ar gael i staff yn y cyfnod trosiannol ac i rannu gwybodaeth am y trefniadau ynghlwm a sefydlu Ysgol Ardal newydd o ran oblygiadau staffio
- Bydd staff a llywodraethwyr y dair ysgol bresennol a'r Awdurdod yn sicrhau fod yr addysg orau phosib a phob cefnogaeth yn cael ei ddarparu i holl ddisgyblion y dair ysgol yn ystod y cyfnod yma o newid

YR YSGOL ARDAL NEWYDD

- Bydd disgyblion Ysgol Groeslon yn symud i gabanau symudol ar ôl gwyliau'r Pasg. Bydd mesurau diogelwch mewn lle i ddiogelu disgyblion a staff yn ystod y gwaith adeiladu, a chydweithio agos rhwng yr ysgol, y Cyngor a'r gweithwyr ar y safle
- Bydd y gwaith o baratoi'r safle yn Groeslon mynd yn ei flaen yn ystod yr wythnosau nesaf
- Rhagwelir dymchwel yr hen ysgol yn fuan ar ôl y Pasg
- Anelir i gychwyn adeiladu'r Ysgol Ardal newydd yn ystod yr Haf

Mae nifer o faterion angen eu cyfarch yn ystod y cyfnod yma o newid a bydd y Cyngor yn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu gyda phawb perthnasol drwy gydol y broses - bydd Newyddlenni cyson yn cael eu darparu i'r perwyl hyn.

Mae mwy o wybodaeth am gynlluniau trefniadaeth ysgolion ar gael ar gwefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion neu drwy e-bost trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

SCHOOL ORGANISATION NEWSLETTER – BRONYFOEL (FRON), CARMEL AND GROESLON AREA

Addysg

GWYNEDD COUNCIL

March 2014

UPDATE

Following the Welsh Government's to approve the proposal to build an Area School to serve the Bronyfoel (Fron), Carmel and Groeslon areas, various elements of this project are already underway:

ESTABLISHING A SHADOW GOVERNING BODY

- A Shadow Governing Body has been established
- The Shadow Governing Body will be responsible for various issues whilst the new Area School is being established. One of the first tasks will be to appoint a Headteacher for the new Area School. It is anticipated that the post of Headteacher will be advertised during the summer term. The remaining team of staff will be appointed thereafter
- The Shadow Governing Body is to receive support from the pupils of each school to decide on a name for the new Area School. Pupils on the school council for Bronyfoel, Carmel and Groeslon will work together to form a short list of possible names. The pupils will ultimately vote to decide the successful name. A new school uniform will also need to be confirmed
- Initial meetings have been held with all relevant staff from Bronyfoel, Carmel and Groeslon schools to explain the support available in the transitional period and to share information about the procedures involved with establishing a new Area School and the staffing implications
- Staff and Governors from each school and the Authority will ensure that the best possible education and every support will be provided to each pupil from all three schools during this period of change

THE NEW AREA SCHOOL

- Ysgol Y Groeslon pupils will move to portable cabins after the Easter holidays. Safety measures will be implemented to safeguard the pupils and staff during the building work and close co-operation between the school, the Council and workmen on the site.
- Work to prepare the site will go ahead during the coming weeks
- It is anticipated to demolish the old school soon after Easter
- It is aimed to begin building the new Area School during the summer

A number of issues need to be addressed during this period of change and the Council will ensure that information will be shared with everyone throughout the process – regular Newsletters will be provided to this end.

More information on schools organisation plans are available on the Council's website at www.gwynedd.gov.uk/schoolorganisation or e-mail school.organisation@gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL